

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bob plentyn gael y sgiliau iawn i wynebu byd sy'n newid. Mae addysg dda yn rhan bwysig o hynny.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr bod pob plentyn yn eu hardal yn derbyn addysg addas. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.

Mae'r canllawiau hyn yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol.



Hawliau

Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. Yng Nghymru, mae addysg yn orfodol, ond nid yw'n orfodol mynd i'r ysgol.

Hawliau rhieni

Mae rhieni'n cael dewis addysgu eu plant yn y cartref.

Mae Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn dweud bod dymuniadau rhieni'n bwysig ac y dylid eu parchu.

Hawliau plant

Yng Nghymru, mae'r gyfraith yn diogelu hawliau plant, ac mae hyn wrth galon popeth a wnawn.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan:

- **Mae gan blant yr hawl i addysg.** Erthygl 28
- **Mae gan blant yr hawl i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.** Erthygl 12
- **Mae'n rhaid i oedolion feddwl am sut y bydd eu penderfyniadau'n effeithio ar blant a gwneud yr hyn sydd orau i'r plentyn.** Erthygl 3

Dylai'r awdurdod lleol ddiogelu hawliau plant. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod pob plentyn yn eu hardal yn cael addysg addas.

Y gyfraith

Mae yna gyfreithiau yng Nghymru sy'n gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael ei amddiffyn ac yn cael addysg.

Beth sy'n rhaid i rieni ei wneud

Mae'n rhaid i rieni plant oedran ysgol wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael addysg effeithlon, addas, amser llawn. Gall hyn ddigwydd trwy fynychu ysgol neu fel arall. Mae'n rhaid i'r addysg fod yn addas ar gyfer:

- eu hoedran, eu gallu, eu doniau
- unrhyw anghenion arbennig sydd ganddyn nhw

Y Ddeddf Addysg

Beth sy'n gorfod digwydd i gefnogi plant ag anghenion arbennig

Ni ddylid tynnu enw plentyn sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig oddi ar gofrestr yr ysgol heb ganiatâd yr awdurdod hwnnw, neu os ydy'r awdurdod hwnnw'n gwrthod rhoi caniatâd, heb gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010

Beth sy'n rhaid i'r awdurdod lleol ei wneud

Mae'n rhaid i awdurdod lleol fod â threfniadau i'w helpu nhw i gael gwybod pwy ydy'r plant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol (cyn belled â'i bod yn bosibl gwneud hynny) ond:

- sydd ddim yn ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol
- sydd ddim yn derbyn addysg addas heblaw yn yr ysgol

Deddf Addysg 1996

Beth sy'n rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud

Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i hawliau plant, fel y manylir arnyn nhw yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ym mhopeth y maen nhw'n ei wneud.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae hon yn hybu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae'n rhaid i bob plentyn gael addysg a chymorth i oresgyn rhwystrau rhag dysgu.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Mae hon yn disodli'r fframwaith AAA presennol. Mae'n dod i rym o fis Medi 2020. Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i benderfynu p'un a oes gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol ai peidio. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.

Os ydy awdurdod lleol yn penderfynu bod gan blentyn anghenion dysgu ychwanegol, mae'n rhaid iddyn nhw ddatblygu Cynllun Datblygu Unigol ar ei gyfer. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud yn siŵr bod y plentyn yn cael popeth sydd yn y cynllun hwnnw, hyd yn oed os mai'r rhieni sy'n ei ddarparu.



Ynglŷn ag addysg yn y cartref

Addysg yn y cartref ydy pan fo rhieni'n addysgu eu plant yn y cartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol.

Mae pobl yn addysgu yn y cartref am wahanol resymau:

- ideolegol neu athronyddol
- iechyd a lles
- diwylliannol
- crefyddol
- darpariaeth addysgol arbennig
- dewis iaith
- bwlio
- hyd y daith i'r ysgol
- yn aros am le yn yr ysgol o'u dewis
- hyblygrwydd

Mae rhieni sy'n addysgu yn y cartref yn cymryd cyfrifoldeb llawn am addysg eu plentyn, gan gynnwys y costau.

Ffyrdd o addysgu

Mae yna fwy nag un ffordd o addysgu yn y cartref. Mae rhai teuluoedd yn dewis:

- **Strwythur** – efallai fod ganddyn nhw amserlen, cwricwlwm, teithiau, grwpiau, cyrsiau a gweithgareddau i helpu â'r dysgu.
- **Dysgu annibynnol** – yn dilyn beth y mae'r plant eisiau ei ddysgu. Mae'r plant yn dewis pynciau neu brosiectau sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Mae addysg yn y cartref yn hyblyg, yn bersonol ac yn ymatebol. Yn aml, mae'r gweithgareddau dysgu'n wahanol iawn i'r hyn sy'n digwydd mewn ysgol.

Addysg effeithlon, addas, amser llawn

Mae'n rhaid i rieni ddarparu addysg effeithlon, addas, amser llawn.

Addysg amser llawn – yn rhoi amser i'r broses, hyd yn oed os nad oes amserlen neu strwythur. Does dim diffiniad cyfreithiol o amser llawn.

Addysg addas – yn paratoi plant ar gyfer bywyd ac yn eu helpu nhw i gyflawni eu potensial.

Addysg effeithlon – yn cyflawni ei nodau.

Gall yr awdurdod lleol edrych ar y math o addysg a gwirio'i fod yn addas. Ond ni ddylid fyth feirniadu addysg yn y cartref yn erbyn y cwricwlwm cenedlaethol neu ei chymharu â'r ysgol.



Ffeithiau eraill

Does dim angen cymwysterau ar rieni i addysgu yn y cartref. Does dim angen iddyn nhw fod yn athro neu'n athrawes neu fod wedi cwblhau cyrsiau addysg.

Does dim angen i rieni gael caniatâd i addysgu yn y cartref. Os ydy plentyn yn yr ysgol, mae'n rhaid i'r rhieni ysgrifennu i ddweud wrth yr ysgol eu bod nhw'n mynd i'w addysgu yn y cartref. Mae enw'r plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol. Mae'n rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r awdurdod lleol o fewn deg diwrnod.

Os nad ydy'r plentyn wedi bod yn yr ysgol erioed, does dim rhaid i'r rhieni ddweud wrth unrhyw un.

Mae rhieni'n gallu rhoi addysg yn y cartref i blentyn sydd â datganiad AAA. Os ydy plentyn mewn ysgol arbennig, ni cheir tynnu enw'r plentyn oddi ar y gofrestr nes bo'r awdurdod lleol yn cytuno.

Mae rhieni'n gallu hurio tiwtor. Gall tiwtoriaid fod yn rhan ddefnyddiol o addysg yn y cartref. Ond, os ydy tiwtor yn addysgu pump neu fwy o blant gyda'i gilydd, gellir ystyried hyn yn ysgol annibynnol. Os mai dyna ydy hi, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddyn nhw gofrestru â Llywodraeth Cymru.



Nodi plant

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddal ati i wella'u ffordd o gyflenwi gwasanaethau a gweithio gyda theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Mae cynnwys plant a rhieni sy'n addysgu yn y cartref yn gallu gwneud gwahaniaeth go iawn.

Mae awdurdodau lleol yn adrodd i wahanol bwyllgorau craffu ac aelodau etholedig. Dylai eu hadroddiad blynyddol ar blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref gynnwys:

- nifer y plant sy'n derbyn addysg yn y cartref yn eu hardal
- materion a rhesymau pam i'r teuluoedd ddewis addysgu yn y cartref
- arfer da
- asesiadau risg
- cynlluniau i'r dyfodol


Gwella cymorth

Rydyn ni eisiau i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref allu dod o hyd i gymorth pan mae ei angen arnyn nhw. Dylai awdurdodau lleol fod â pherson wedi'i enwi y mae teuluoedd yn gallu cysylltu ag ef neu hi.

Gwella gwybodaeth

Dros amser, mae set ddata gadarn a chyson o addysg yn y cartref wedi'i datblygu ym mhob awdurdod lleol. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio hon i:

- nodi patrymau a thueddiadau addysg yn y cartref yn eu hardal
- datblygu eu polisiau a'u harferion
- nodi meysydd i'w gwella ar gyfer ysgolion lleol.



Gwella diogelu

Mae'n rhaid i wasanaethau weithio gyda'i gilydd i ddiogelu plant rhag niwed. Mae pawb yn gyfrifoldeb am hyn.

Mae'n berthnasol i bob plentyn. Does dim tystiolaeth bod plant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref mewn mwy o risg na phlant mewn ysgol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ofyn am wybodaeth os ydyn nhw'n meddwl bod plentyn mewn risg. Os nad ydyn nhw'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw, gallai hyn fod yn achos rhesymol dros gymryd camau i weld y plentyn. Os ydyn nhw'n meddwl bod y plentyn yn cael niwed, maen nhw'n gallu gwneud cais am Orchymyn Gofal.

Gwella systemau

Mae'n gallu bod yn anodd gwybod am yr holl blant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref mewn ardal awdurdod lleol.

Mae pob un o'r 22 awdurdod wedi arwyddo Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru sy'n helpu i rannu gwybodaeth. Ond dylai awdurdodau lleol edrych ar ffyrdd eraill hefyd, fel Protocolau Rhannu Gwybodaeth.

Symud ymlaen – Cronfa Ddata Addysg yn y Cartref

Ym mis Ionawr 2018, manylodd y Gweinidog Addysg ar gynlluniau ar gyfer rheolau newydd. Mae'r rhain yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol greu cronfa ddata ar gyfer pob plentyn yn eu hardal. Byddai'n rhoi dyletswydd ar fyrdau ieuchyd ac ysgolion annibynnol i rannu gwybodaeth anghlinigol ag awdurdodau lleol. Yna, byddai'n bosibl croesgyfeirio'r wybodaeth â chofrestri ysgolion.



Gall awdurdodau lleol nodi plant hefyd drwy:

- **gyrchu triwantiad** – ni ddylid cymryd unrhyw gamau yn erbyn y plentyn, ond gellir rhannu'r wybodaeth.
- **cyfnodau pontio** – dylai awdurdodau lleol groesgyfeirio derbyniadau ysgol â chofrestri geni. Bydd hyn yn eu helpu nhw i nodi'r plant oedran dosbarth derbyn nad ydyn nhw yn yr ysgol.
- **ysgol i ysgol** – ar ôl i blentyn adael un ysgol, mae'r ysgol newydd yn eu cofrestru nhw ar y wefan ddiogel hon. Os nad ydy hyn wedi digwydd o fewn pedair wythnos, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol greu ffeil drosglwyddo gyffredin (CTF) ar gyfer 'disgybl coll'.

Gwirio'r addysg

Er mwyn i'r awdurdod lleol asesu pa mor addas ydy'r addysg sy'n cael ei derbyn, byddai'n rhesymol iddyn nhw weld y plentyn.

Dylai teuluoedd gael cyfleoedd i ddangos bod addysg eu plant yn addas. Dylai plant gael y cyfle i ddweud eu dweud.

Pryd a lle

Dylai awdurdodau lleol gyfarfod â theuluoedd unwaith y flwyddyn. Gallan nhw drefnu i gyfarfod yn amlach os oes yna bryderon. Does dim rhaid cynnal y cyfarfodydd yn y cartref. Gallan nhw ddigwydd unrhyw le.

Beth i'w wirio

Dylai awdurdodau lleol fod yn gwirio:

- faint o ran y mae'r rhieni'n ei chwarae yn yr addysg
- anghenion y plentyn
- cyfleoedd ar gyfer profiadau dysgu
- adnoddau fel llyfrau a TGCh
- cyfleoedd i'r plentyn gymdeithasu, chwarae a chyfarfod â phobl

Dylai addysg addas gynnwys ffyrdd i ddysgu sgiliau rhifedd, llythrennedd ac iaith.

Ni ddylen nhw fod yn gwirio:

- a ydyn nhw'n dilyn unrhyw gwricwlwm
- a oes ganddyn nhw amserlen, amseroedd tymor neu oriau penodol
- a oes ganddyn nhw ystafell benodol ar gyfer astudio
- a oes ganddyn nhw'r un offer ag ysgol

Cynnwys y plentyn

Dylai'r awdurdod lleol weld a siarad â'r plentyn. Dylen nhw wrando ar farn y plentyn am ei addysg.

Os nad ydy'r plentyn eisiau cael ei addysgu yn y cartref, dylai'r awdurdod lleol geisio helpu'r teulu i gytuno ar beth sydd orau, er enghraifft, trwy gynnig gwasanaethau cyfryngu teuluol neu eu cyfeirio atyn nhw.



Tystiolaeth

Mae tystiolaeth o addysg plentyn yn bwysig i awdurdodau lleol, ond does dim rhaid i rieni ddarparu unrhyw beth. Fodd bynnag, heb unrhyw dystiolaeth byddai'n anodd i'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod addysg addas ar waith.

Felly, mae bod yn glir, yn gyfeillgar ac yn hawdd siarad â chi yn allweddol.

Mae holiadur cyn-cyfarfod yn lle da i ddechrau ar gyfer trafodaeth. Mae hefyd yn rhoi amser i rieni feddwl am unrhyw gymorth fydd ei angen arnyn nhw o bosibl.

Yr adroddiad


Dylid anfon adroddiad at y rhieni o fewn 10 diwrnod ar ôl y cyfarfod. Dylai hwn ddweud wrthyn nhw a ydy'r awdurdod lleol o'r farn bod yr addysg yn y cartref yn addas ai peidio.

Mae'n rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys:

- unrhyw gamau sydd angen eu cymryd
- beth y mae'r awdurdod lleol yn gallu ei wneud i helpu
- pryd fydd y cyfarfod nesaf
- pryderon neu faterion y mae'r teulu wedi'u codi
- ceisiadau y mae'r teulu wedi'u gwneud am help neu wybodaeth

Gorchmynion Mynychu'r Ysgol

Os nad ydy rhiant yn rhoi addysg addas i blentyn, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymyrryd.



Gorchmynion Goruchwylio Addysg

Mae Gorchymyn Goruchwylio Addysg yn gwneud yr awdurdod lleol yn gyfrifol am addysg y plentyn. Mae'n rhaid iddyn nhw gefnogi'r rhieni a rhoi cyfarwyddiadau iddyn nhw.

Mae'n rhaid i'r rhieni adael i'r awdurdod lleol gyfarfod â'r plentyn a gwrando ar ei farn.

Os ydy'r rhiant yn methu â dilyn y Gorchymyn Goruchwylio Addysg gellir codi dirwy o hyd at £1,000 ar y rhiant am bob plentyn sydd ddim yn derbyn addysg addas.

Cymorth i blant

Dylai gwybodaeth am addysg yn y cartref fod yn glir, yn gyfoes ac yn hawdd dod o hyd iddi. Dylai gynnwys:

- manylion cymorth
- cyfleoedd yn yr ardal
- rhestrau o sefydliadau addysg yn y cartref
- dolenni i adnoddau
- dolenni i wasanaethau sydd ar gael

Cymorth ar gyfer arholiadau

Mae rhieni sy'n addysgu yn y cartref yn cymryd y cyfrifoldeb llawn am addysg eu plentyn. Mae hyn yn cynnwys costau arholiadau. Mae'n rhaid sefyll yr arholiadau mewn canolfan arholiad gymeradwy. Lle bynnag bo'n bosibl, dylai awdurdodau lleol ddweud wrth rieni lle mae eu plant yn gallu sefyll yr arholiadau.

Tynnu oddi ar y gofrestr

Mae rhai ysgolion yn pwysu ar rieni i addysgu eu plant yn y cartref. Mae'n bosibl i hyn ddigwydd os ydy presenoldeb yn broblem neu os ydy gwaharddiad yn cael ei fygwth. Dydy hyn ddim yn dderbyniol. Mae ein polisi yn glir. Dylai rhieni fyth gael eu hannog i dynnu eu plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol.

Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i eirioli dros y plant ac i gefnogi rhieni. Mae'n rhaid iddyn nhw herio unrhyw ysgol sy'n cael ei dal yn gwneud hyn.

Addysg hyblyg

Dydy addysg hyblyg ddim yr un fath ag addysg yn y cartref.

Mae enw'r plentyn yn aros ar gofrestr yr ysgol. Mae'r plentyn yn mynd i'r ysgol yn rhan amser. Mae'n cael ei addysgu yn y cartref am weddill yr amser.

Mae hi i fyny i'r pennaeth benderfynu a ydy plentyn yn cael gwneud hyn.



Diolch am ddarllen hwn

Gallwch chi ddarllen y canllawiau llawn yma:

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y canllawiau hyn yn gweithio felly a fydddech cystal ag ateb y cwestiynau erbyn 21 Hydref 2019. Anfonwch eich atebion i:

 WellbeingSHARE@llyw.cymru

Nodwch

Ymgynghoriad Addysg yn y Cartref – WG35754
yn y llinell pwnc.

 Y Gangen Lles Disgyblion
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cwestiynau

Ydy hwn yn rhoi digon o wybodaeth i helpu awdurdodau lleol i wirio addasrwydd addysg yn y cartref?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

Ydych chi'n cytuno â'r rheswm dros weld y plentyn i asesu addasrwydd yr addysg?

Ydw

Nac ydy

Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

Ydy hwn yn manylu'n glir ar hawliau rhieni i addysgu eu plentyn(plant) yn y cartref?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

Ydy'r wybodaeth am y Gorchmynion Mynychu'r Ysgol a'r Gorchmynion Goruchwylio Addysg yn glir?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

Ydy hwn yn manylu'n glir ar yr angen i awdurdodau lleol nodi plant?

Ydy

Nac ydy

Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

Pwy ddylai wneud yr ymweliadau ac asesu addasrwydd addysg y plentyn? Er enghraifft: athro/athrawes, swyddogion addysg yn y cartref, rhywun o banel addysg annibynnol.

Ydych chi'n meddwl y dylai pobl broffesiynol eraill fod yn y cyfarfod? Er enghraifft: seicolegydd addysg neu therapydd iaith a lleferydd.

Ydy Nac ydy Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

Oes yna unrhyw beth arall y dylen ni ei gynnwys yn y canllawiau hyn?

Un peth arall cyn gorffen

Gwnaethon ni grybwyll bod y Gweinidog Addysg eisiau datblygu Cronfa Ddata Addysg yn y Cartref.

Ydych chi'n meddwl mai dyma'r peth iawn i'w wneud?

Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

A ddylai ysgolion annibynnol a byrddau iechyd orfod rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol?

Dylen Na ddyn Ddim yn siŵr

Sylwadau ategol

